PWNC CRAIDD

# TGAU Cymraeg: Iaith a Llenyddiaeth (Gradd Unigol)

## CYFLWYNIAD

“Mae’r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae’n rhan o’r hyn sy’n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl.” (Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o* siaradwyr, 2017, t.2). Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed ‘miliwn o siaradwyr Cymraeg’ erbyn 2050 ac rydych chi’n un o’r miliwn! Dyma gymhwyster cyffrous, newydd ble byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth fydd yn sbarduno’r dychymyg, yn meithrin eich chwilfrydedd ac yn eich paratoi i gyfathrebu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO?

UNED 1 (Naratif) – yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi’r cynnwys, cymeriadau, themâu a phlot. Byddwch yn ymateb yn bersonol a chreadigol i’r nofel hefyd.

UNED 2 (Hunaniaeth) – yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, ac yn cynnal trafodaeth grŵp i drafod y plot, cymeriadau a themâu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb yn ogystal â’r sgil o gyfathrebu’n hyderus yn y Gymraeg.

UNED 3 (Agweddau) – yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o gerddi er mwyn dysgu sut i werthfawrogi eu cynnwys, arddull a neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o’ch dewis.

UNED 4a (Cysylltiadau Ieithyddol) - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac yn dysgu sut i gyfuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i’r testunau mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU?

ARHOLIAD – Bydd dau arholiad ysgrifenedig werth 60% o’r cymhwyster Gradd Ungiol yn unedau 1 a 4a. Bydd y ddau arholiad yn 90 munud o hyd ac yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, atebion estynedig a chyfle i ysgrifennu’n greadigol.

ASESIAD DI-ARHOLIAD – Bydd dau asesiad di-arholiad werth 40% o’r cymhwyster Gradd Unigol yn unedau 2 a 3. Bydd dau asesiad llafar (unigol a grŵp) ac un asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU?

Mae TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd fydd yn eich helpu i ddatblygu’r amrywiaeth o sgiliau isod:

- datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith
- datblygu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
- datblygu sgiliau rhyngweithio mewn pâr neu grŵp gan wrando ar eraill, mynegi barn a dod i gasgliadau
- datblygu sgiliau creadigol yn ysgrifenedig a thrwy ddarllen ystod eang o ffurfiau
- datblygu sgiliau gwerthfawrogi llenyddiaeth
- datblygu sgiliau siarad cyhoeddus
- meithrin chwilfrydedd ynglŷn â’r Gymraeg ar gyfer astudiaethau pellach, yn y gweithle a’r gymuned.

## GYRFAOEDD YM MAES ‘IAITH A LLENYDDIAETH GYMRAEG’

TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg – diben y cymhwyster hwn yw eich ysbrydoli i fod yn ddinasyddion sy’n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth rydych chi ar y blaen i’r lleill cyn dechrau! Mae’r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau, adloniant, chwaraeon a llawer mwy. Mae’r daith at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un cyffrous ac rydych chi’n rhan ohoni.

DEWCH I WYBOD MWY - SIARADWCH Â’CH ATHRO HEDDIW!

